

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48
(FFORDD YMADAEL TUA'R DWYRAIN YNG
NGHWMGWILI, SIR GAERFYRDDIN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar ffordd ymadael tua'r dwyrain cefnffordd yr A48, neu gerllaw iddi, yng Nghwmgwili yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar hyd y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A48 yng Nghwmgwili yn Sir Gaerfyrddin.

Y ffordd arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno gadael yr A48 yw parhau at Gylchfan Pont Abraham ac ymuno â'r A483 tua'r gogledd-ddwyrain, yna'r B4297 Heol Cwper tua'r gogledd i droi i'r chwith ar Heol Hendre ac yna teithio i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin ar hyd Heol Lotwen a Heol Thornhill lle bydd y gwyriad yn dod i ben.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 28 Tachwedd 2023 hyd at 29 Tachwedd 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://www.llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A48 TRUNK ROAD (EASTBOUND EXIT
SLIP ROAD AT CWMGWILLI,
CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the eastbound exit slip of the A48 trunk road at Cwmgwili in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the entire length of the A48 eastbound exit slip road at Cwmgwili in the County of Carmarthenshire.

The alternative route for eastbound traffic wishing to leave the A48 is to continue to Pont Abraham Roundabout and join the north eastbound A483, then the northbound B4297 Coopers Road to turn left on to Hendre Road and then to proceed in a general westerly direction along Lotwen Road and Thornhill Road where the diversion will end.

It is expected that the prohibition will operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 28 November 2023 until 29 November 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

